Urdd Gobaith Cymru

Swydd Ddisgrifiad

Teitl y swydd :	Prentis Chwaraeon, Hamdden a Lles Actif, Lefel 2	**Lleoliad** :	Eryri a Ynys Môn
Adran :	Chwaraeon	**Cyflog** :	Prentis Blwyddyn 1: £15,023 y flwyddyn
Oriau gwaith :	Llawn amser (35 awr yr wythnos)	**Cytundeb** :	Tymor penodol, 13 mis
Yn adrodd i :	Rheolwr Chwaraeon	**Rheolaeth llinell** :	Dim

Prif bwrpas y swydd:

Nod y swydd fydd cynyddu cyfranogaeth plant a phobl ifanc mewn gweithgaredd chwaraeon cyson, drwy'r cyfrwng y Gymraeg wrth gweithio tuag ar brentisiaeth Chwaraeon, Hamdden a Lles Actif Lefel 2.

Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:

1. Gweithio tuag ar brentisiaeth Chwaraeon, Hamdden a Lles Actif Lefel 2.
2. Cynorthwyo sesiynau wythnosol a chlybiau yn ystod a thu allan i oriau dysgu.
3. Cynorthwyo gweithgareddau yn ystod gwyliau ysgol.
4. Creu cynlluniau sesiwn i gyd-fynd gyda'r gweithgareddau.
5. Cydweithio gyda staff yr adran ac ysgolion er mwyn annog plant a phobl ifanc i ymgymryd â chyfleoedd chwaraeon yn ei ardal.
6. Cydweithio gyda gwirfoddolwyr a hyfforddwyr o fewn clybiau a digwyddiadau.
7. Hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg o fewn ein gwasanaethau.
8. Cefnogi digwyddiadau chwaraeon rhanbarthol a chenedlaethol o dan arweiniad adran digwyddiadau.

Manyleb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad

Nodiadau i ymgeiswyr:

- *I ymgeisio, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.*

Hanfodol:	**Dymunol**:
1. Bydd angen meddu ar drwydded yrru a char, neu'r gallu i deithio'n gwbl hyblyg ac annibynnol er mwyn cyflawni'r swydd hon. 2. Bydd hi'n angenrheidiol gallu siarad ac ysgrifennu Cymraeg er mwyn cyflawni'r swydd hon. 3. Bydd angen dilyn nifer o gyrsiau hyfforddiant perthnasol ar gyfer datblygu yn y swydd. 4. Bydd angen i'r ymgeisydd bod yn 16+.	1. Bydd cymwysterau yn y maes chwaraeon a hamdden o fantais. 2. Byddai profiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc o fantais. 3. Bydd profiad o hyfforddi o fantais.

Hyfforddiant

Fel rhan o'r brentisiaeth byddech yn ymgymryd â rhaglen hyfforddiant lawn.

Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus yn ymgymryd â'r holl hyfforddiant a gynigir.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymgymryd â Fframwaith **Prentisiaeth Lefel 2 mewn Chwaraeon, Hamdden a Lles Actif. (Llwybr hyfforddi)**

Mae'r fframwaith yn cynnwys y cymwysterau canlynol:
• NVQ Arwain Gweithgareddau (Lefel 2)
• Tystysgrif mewn Hyfforddi (Lefel 2)
• Sgiliau Hanfodol* (Lefel 1)
*Yn ôl yr angen

Yn ogystal, darperir yr hyfforddiant ychwanegol amrywiol a all gynnwys:
• Cwrs Diogelu Plant
• Cwrs Cymorth Cyntaf
• Iechyd a Diogelwch
• Ymwybyddiaeth Cyffuriau Mewn Chwaraeon
• Ymarfer Myfyriol
• Gweithdai amrywiol eraill yn cynnwys iechyd meddwl
• Cymwysterau Chwaraeon Penodol

Mae canran fawr o'r hyfforddiant yn digwydd yn y gweithle ac o fewn gweithdai a threfnir yn ystod oriau gwaith. Er hyn, disgwylir i brentisiaid gwblhau darnau o'r gwaith cwrs y tu allan i oriau gwaith yn rheolaidd. Bydd gan bob prentis mynediad at liniadur gwaith er mwyn gwneud hynny.

Mae'r Adran Brentisiaethau yn falch iawn o allu cynnig cymorth arbennig er mwyn i

bob prentis lwyddo. Mae modd i ni deilwra'r rhaglen at eich anghenion chi ac rydym yn croesawu ceisiadau gan bawb, beth bynnag yw eich cefndir addysgol neu gyrhaeddiad academaidd.

Newidiadau i'r Swydd Ddisgrifiad: Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

Hyblygrwydd: Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

Adolygiad: Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Ebrill 2025 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

Gofynion: Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus feddu ar drwydded yrru llawn ac yswiriant priodol sydd â sicrwydd ar gyfer defnydd busnes.

Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus berchnogi'r holl rinweddau o Egwyddorion Gweithio i'r Urdd trwy gydol eu cyflogaeth.

Gwiriadau Perthnasol: Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG).